Polisi Camddefnyddio ac Atal Sylweddau (Ysgolion Uwchradd) Medi 2024

Enw'r Ysgol	Ysgol Glan Clwyd
Cyfeiriad	Ffordd Dinbych, Llanelwy, LL17 0RP
Rhif/e-bost cyswllt	01745 582611
Gwefan	www.ysgolglanclwyd.co.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

I’w gwblhau gan yr ysgol:

Rhif fersiwn y polisi	5
Dyddiad cymeradwyo’r polisi’n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu	Ionawr 2025
Dyddiad y daw’r polisi i rym	
Dyddiad adolygu	Medi 2026
Llofnodwyd (Pennaeth)	
Llofnodwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethu)	
Gwybodaeth am y polisi hwn ar gael i rieni/gofalwyr	
Asesiad lles wedi'i gwblhau a'r dyddiad	
Asesiad o effaith ar ddiogelu data wedi’i gwblhau a’r dyddiad (os yw’n berthnasol)	d/b

I'w lenwi gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych:

Datblygwyd y polisi gan	education.audit@denbighshire.gov.uk
Dyddiad mabwysiadu gwreiddiol a gan bwy	Mawrth 2011, Ysgolion Uwchradd ac Arbennig
Dyddiad y cyflwynwyd y polisi gwreiddiol i ysgolion Sir Ddinbych	Mawrth 2011
Rhif y fersiwn a dyddiad	Fersiwn 5, Medi 2024
Dyddiad adolygu	2026
Asesiad lles wedi'i gwblhau a'r dyddiad	Fersiwn 1: 11/07/2017
Asesiad o effaith ar ddiogelu data wedi’i gwblhau a’r dyddiad (os yw’n berthnasol)	

Addasiadau ers y fersiwn ddiwethaf o'r polisi

Pwynt	Newidiadau a wnaed
1.1	Newidiwyd: Nodau ac Amcanion I: Cyflwyniad ▪ Pwynt 3 – Newidiwyd – Darparu amgylchedd di-fwg (yn cynnwys e-sigaréts) i bawb. ▪ I – Mae ysmygu a defnyddio e-sigaréts wedi'i gynnwys mewn polisi ar wahân ar Safle Ysgol Gyfan Di-fwg
3	Ychwanegwyd: Cyd-destun cyfreithiol
4.1.1	Ychwanegwyd: ● Cwricwlwm i Gymru ● Deddfwriaeth ddi-fwg: canllawiau ar y newidiadau o fis Mawrth 2021 – Tir ysgolion di-fwg ● Deddf Cydraddoldeb 2010 ● Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol ● Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): crynodeb ● Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi newid i Weithdrefnau Diogelu Cymru
5.1	Ychwanegwyd: Adolygwyd y polisi yn 2022/23.
5.4	Ychwanegwyd: Yn 2022/23, adolygwyd y polisi eto gan: ysgolion, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion Iach.
7	Newidiwyd: Arweinydd diogelu I: Unigolyn Diogelu Dynodedig
7.2	Newidiwyd: Cydlynydd ABCh I: Opsiwn i ysgolion roi eu harweinydd iechyd a lles eu hunain
7.3 7.4 7.5 7.6 7.7	Ychwanegwyd: Adran y Corff Llywodraethu Ychwanegwyd: Staff Ychwanegwyd: Rhieni/Gofalwyr Ychwanegwyd: Dysgwyr Ychwanegwyd: Gweithwyr Proffesiynol Eraill
8 8.1.4	Tynnwyd: Ysmygu – ei roi yn ei Bolisi Safle Ysgol Gyfan Di-fwg ei hun Ychwanegwyd: Teithiau Preswyl
9.4	Ychwanegwyd: Aelod o staff y gellir ymddiried ynddynt
10 a 10.1	Ychwanegwyd: Rhannu Gwybodaeth a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Bydd cofnodion am ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau'n cael eu cadw yn unol â pholisi'r ysgol ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
13	Ychwanegwyd: Adran Gydraddoldeb
15.1	Rhestr o bartneriaid wedi'i thynnu, a 'partneriaid perthnasol' yn ei lle

Rhan 2	Addysg
2.4	Polisi Trechu Troseddau mewn Ysgolion wedi'i ddiweddaru o 2012 i 2016
3.1.3	Ychwanegwyd: Bydd gofal oedolyn priodol yn cael ei sortio.
5.2	Newidiwyd: 'Byddwn' am 'bydd staff priodol'
8.1	Newidiwyd: 'Addysg Bersonol a Chymdeithasol' am y cwricwlwm
9	Ychwanegwyd: - Os bydd achlysur lle mae'r ysgol yn amau bod gan ddisgybl sylwedd neu rywbeth sydd wedi'i wahardd yn eu meddiant, bydd staff penodol yn cael eu galw i gynorthwyo ac os oes rheswm i amau, bydd gofyn i ddisgyblion wagio eu bagiau a'u pocedi dan oruchwyliaeth dau aelod o staff.
9.1.1	Newidiwyd: Gwneir ymdrech resymol i gysylltu â rhieni/gofalwyr i roi gwybod iddynt y bydd chwiliad yn cael ei gynnal. Nid oes gan rieni/gofalwyr hawl i atal chwiliad o'r fath nac i'w ohirio'n ormodol. I: Gwneir ymdrech resymol i gysylltu â rhieni/gofalwyr i roi gwybod iddynt bod eu plentyn yn cael eu hamau o fod â sylwedd neu rywbeth wedi'i wahardd yn eu meddiant a'u bod wedi gwrthod gwagio eu bag neu bocedi.
9.1.1	Newidiwyd: Bydd chwiliad yn cael ei gynnal I: Bydd yr ysgol yn ymdrin â'r sefyllfa
9.1.2	Newidiwyd: Bydd y protocol mae'r heddlu wedi cytuno arno'n cael ei weithredu. I: Bydd rhieni'n dal i gael gwybod.
10.1	Newidiwyd: Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i gael rhiant/gofalwr yn bresennol. I: Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod a'u gwahodd i fod gyda'u plentyn.

Sancsiynau	
Diodydd Egni	Ychwanegwyd: Cam gweithredu pellach – bydd y polisi ymddygiad yn cael ei ddilyn os bydd yfed diodydd egni'n dod yn broblem barhaus neu'n effeithio ar yr ysgol o ran ymddygiad.
Alcohol Aildroseddu Eto	Ychwanegwyd: Nid oes modd cynnig ymyrraeth 5 diwrnod ar bob cam, dim ond unwaith. Ychwanegwyd: Cynnig ymyrraeth 5 diwrnod gyda Barnardo's. Os yw'r person ifanc yn gwrthod, neu ddim yn cydweithredu ar ôl cychwyn, bydd yn troi'n waharddiad Newidiwyd: Cyflenwi I: Cyflenwi / Dod â pheth i'w rannu
Cyflenwi / Dod â pheth i'w rannu	Trosedd 1af: Newid o waharddiad am 1 diwrnod i 3 diwrnod Ychwanegwyd: Cynnig ymyrraeth 5 diwrnod gyda Barnardo's. Os yw'r person ifanc yn gwrthod, neu ddim yn cydweithredu ar ôl cychwyn, bydd yn troi'n waharddiad
2il Drosedd	Ychwanegwyd: Adran ar gyfer 2il drosedd
Aildroseddu Eto	Newidiwyd: gwaharddiad cyfnod penodol o 2 ddiwrnod I: Gwaharddiad parhaol
Cyffuriau anghyfreithlon	Ychwanegwyd: Nid oes modd cynnig ymyrraeth 5 diwrnod ar bob cam, dim ond unwaith.

Trosedd 1af	Ychwanegwyd: A chynnig ymyrraeth 5 diwrnod gyda Barnardo's. Os yw'r person ifanc yn gwrthod, neu ddim yn cydweithredu ar ôl cychwyn, bydd yn troi'n waharddiad
2il Drosedd	Ychwanegwyd: Cynnig ymyrraeth 5 diwrnod gyda Barnardo's, os nad yw'n cydweithredu, ei droi'n waharddiad
Aildroseddu Eto	Newidiwyd: 3ydd trosedd I: Aildroseddu eto Newidiwyd: gwaharddiad cyfnod penodol o 5 ddiwrnod Oni bai fod ymddygiad yn cyfiawnhau cyfnod hwy (polisi ymddygiad) SYLWER: gellid defnyddio ymyrraeth 5 diwrnod gan Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc I: Gwaharddiad parhaol os yw'n cael ei ystyried yn briodol, gan weithio gyda'r awdurdod lleol.
	Tynnwyd: 4ydd Trosedd
Presgripsiwn	
Trosedd 1af	Ychwanegwyd: Trowch at y polisi diogelu os oes risg, a ffoniwch 999 mewn argyfwng. Ychwanegwyd: Ystyriwch: - Beth a faint mae'r dysgwr wedi'i gymryd? Pryd? Ai eu meddyginiaeth nhw yw hi? A yw'n gyffur sy'n cael ei reoli? Sicrhewch ddiogelwch y dysgwr. Ceisiwch gymorth meddygol os oes ei angen. A ydynt wedi cael gafael ar y feddyginiaeth hon gyda'r bwriad o gynhyrchu sylwedd arall – sy'n gysylltiedig â defnydd annerbyniol?
Cyflenwi Trosedd 1af	Ychwanegwyd: Os yw'n briodol, ymdrin â'r mater yn unol â'r polisi rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr.

1. Cyflwyniad

1.1 Nod ein hysgol yw:

- Darparu cwricwlwm camddefnyddio sylweddau eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol pob disgybl ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn. Ymdrechwn i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi disgyblion i ddeall y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau.

- Defnyddio dull safonol o reoli digwyddiadau'n ymwneud â sylweddau gan roi sylw i'n dyletswyddau cyfreithiol; i warchod lles cymuned gyfan yr ysgol a rhoi negeseuon priodol i staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr, a sicrhau ein bod yn ymdrin â phob digwyddiad yn gyson.

- Mae ysmygu a defnyddio e-sigaréts wedi'i gynnwys mewn polisi ar wahân ar Safle Ysgol Gyfan Di-fwg.

1.2 Rhesymeg

1.2.1 Mae camddefnyddio sylweddau, yn cynnwys tybaco, alcohol a chyffuriau cyfreithlon/anghyfreithlon yn bryder mawr i iechyd cyhoeddus yng Nghymru o ran goblygiadau ar iechyd ac mae modd cysylltu'r ail ag ymddygiad troseddol. Rydym yn cydnabod y gall rhaglenni addysg camddefnyddio sylweddau o ansawdd da yn seiliedig ar sgiliau, sy'n briodol i oedran, helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a chall am sylweddau sy'n cael eu defnyddio a/neu gamddefnyddio mewn cymdeithas. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb ar gyfer diogelwch ein cymuned ysgol a phwysigrwydd dull cyson i ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau. Rydym yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Iach ac yn cydnabod gwerth mynd i'r afael â'r mater o safbwynt ysgol gyfan, sy'n cynnwys arweinyddiaeth, y cwricwlwm, amgylchedd yr ysgol, ethos a chysylltiadau cymunedol.

1.3 Diffiniadau a therminoleg

1.3.1 Y diffiniad safonol o gyffur neu sylwedd a ddefnyddir ar gyfer y polisi hwn yw: *'Sylwedd yw rhywbeth mae pobl yn ei gymryd i newid y ffordd maent yn teimlo, meddwl neu'n ymddwyn'* (Y Cenhedloedd Unedig). At ddibenion y polisi hwn, mae

hyn yn cynnwys ystod eang o sylweddau, yn rhai cyfreithlon ac anghyfreithlon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Alcohol
- Meddyginiaethau dros y cownter
- Meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig fel steroidau anabolig a bensodiasepinau
- Sylweddau anghyfreithlon fel heroin, cocên, amffetaminau, LSD, canabis, madarch hud
- Sylweddau anweddol fel tanwyddau erosol, bwten, toddyddion a glud
- Sylweddau seicoweithredol newydd (sydd hefyd yn cael eu galw'n sylweddau penfeddwol cyfreithlon/*"legal highs"*)
- Steroidau
- Diodydd egni

1.3.2 O dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, mae'r canlynol yn droseddau:

- Bod â chyffur rheoledig yn eich meddiant yn anghyfreithlon
- Bod â chyffur rheoledig yn eich meddiant gyda'r bwriad o'i gyflenwi
- Cyflenwi neu gynnig cyflenwi cyffur rheoledig (hyd yn oed pan na chodir tâl am y cyffur)
- Caniatáu adeilad rydych yn byw ynddo neu'n ei reoli i gael ei ddefnyddio yn anghyfreithlon at y diben o gynhyrchu neu gyflenwi cyffuriau rheoledig

1.4 Eithriadau polisi

1.4.1 Er nad oes lle i sylweddau yn ein hysgol, mae sefyllfaoedd dilys lle gallai rhai sylweddau fod yn ein hysgol:

Meddyginiaethau: Dim ond gydag awdurdodiad ysgrifenedig i'n hysgol gan y rhiant/gofalwr ac ar gyfer defnydd y dysgwr yn unig y caiff meddyginiaethau ar bresgripsiwn a rhai dros y cownter eu caniatáu. Mae gennym bolisi rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr. Os bydd dysgwyr yn cyflenwi cyffuriau presgripsiwn i eraill yn yr ysgol, maent yn gweithredu'n anghyfreithlon, ac felly bydd y Polisi Camddefnyddio ac Atal Sylweddau'n berthnasol.

Sylweddau anweddol: Y rheiny a ddefnyddir gan adrannau penodol yn ein hysgol at ddibenion addysgu.

Alcohol: Mae'n drosedd dan Ddeddf Trwyddedu 2003 gwerthu alcohol heb drwydded. Rydym yn ymwybodol, os byddwn yn cael alcohol ar safle'r ysgol, y gallem fod yn atebol i ofynion trwyddedu a byddwn yn cysylltu ag adran drwyddedu Sir Ddinbych i bennu a oes angen trwydded arnom (01824 706342).

2. Nodau ac amcanion

2.1 Darparu cwricwlwm camddefnyddio sylweddau eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol pob dysgwr ac yn eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn. Ymdrechwn i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi dysgwyr i ddeall risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau.

2.2 Darparu dull safonol o reoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â sylweddau gan roi sylw dyledus i'n rhwymedigaethau cyfreithiol; i warchod lles cymuned gyfan yr ysgol a rhoi negeseuon priodol i staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr gan sicrhau ein bod yn ymdrin â phob digwyddiad yn gyson.

2.3 Darparu amgylchedd di-fwg (yn cynnwys e-sigaréts) i bawb.

3. Cyd-destun cyfreithiol

3.1 Mae'n anghyfreithlon i rywun fod â chyffuriau rheoledig yn eu meddiant, eu cyflenwi a'u cynhyrchu. Mae hi hefyd yn anghyfreithlon mewnforio neu allforio cyffuriau neu ganiatáu i'ch eiddo gael eu defnyddio i gynhyrchu cyffuriau.

Mae cyffuriau rheoledig yn disgyn i dri chategori, Dosbarth A, B neu C, yn ôl pa mor beryglus neu ba mor niweidiol ydynt. Mae'r dedfrydau ar gyfer troseddau cyffuriau'n wahanol i bob dosbarth o gyffuriau. Cyffuriau Dosbarth A yw'r rhai mwyaf niweidiol, sy'n arwain at y ddedfryd fwyaf.

Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016: Mae'r Ddeddf hon yn gwahardd pob sylwedd seicoweithredol (sylweddau penfeddwol cyfreithlon/*"legal highs"*). Mae'n ei gwneud yn drosedd cynhyrchu, cyflenwi, cynnig cyflenwi, meddu gyda'r bwriad o gyflenwi, mewnforio ac allforio sylweddau seicoweithredol, a meddu ar sylwedd seicoweithredol mewn sefydliad gwarcheidiol.

(https://www.cps.gov.uk/crime-info/drug-offences)

4. Cysylltiadau â chanllawiau cenedlaethol a pholisïau eraill yr ysgol

4.1 Canllawiau cenedlaethol

4.1.1 Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu gan gyfeirio at ddogfennau canlynol Llywodraeth Cymru:

- Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019–2022 Llywodraeth Cymru
- Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau (2013)
- Cwricwlwm i Gymru
- Deddfwriaeth ddi-fwg: canllawiau ar y newidiadau o fis Mawrth 2021 – Tir ysgolion di-fwg
- Polisi Trechu Troseddau Ysgolion – Protocol ar gyfer Heddlu sy'n Cefnogi Ysgolion gyda Digwyddiadau ar gyfer Trosedd ac Anhrefn. Dogfen Gyfeirio ar gyfer Staff Ysgol (2021)
- Canllawiau i Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion yn Cydweithio. Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion.
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): crynodeb
- https://www.diogelu.cymru/

4.2 Polisïau ysgol eraill

4.2.1 Ni ddylai'r polisi hwn gael ei ystyried ar ei ben ei hun gan fod cysylltiadau clir rhyngddo â'r polisïau ysgol canlynol:

- Ymddygiad
- Gwrth-fwlio
- Iechyd a Diogelwch
- Ymwelwyr
- Diogelu
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)
- Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol (Sir Ddinbych)
- Polisïau Adnoddau Dynol Sir Ddinbych (staff) yn cynnwys ysmygu ac alcohol/sylweddau

5. Sut datblygwyd y polisi

5.1 Ym mis Mawrth 2011, cytunodd pob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yn Sir Ddinbych ar Bolisi Camddefnyddio Sylweddau safonol. Cafodd hwn ei lunio gan weithgor a'i gymeradwyo i'w roi ar waith gan bob corff llywodraethu. Nod y polisi oedd creu dull safonol o ymdrin â materion defnyddio a chamddefnyddio sylweddau ym mhob ysgol. Adolygwyd y polisi yn 2022/23.

5.2 Ym mis Gorffennaf 2013, cytunodd Uwch Dîm Arweinyddiaeth Uwchradd Sir Ddinbych ar gyfer Cynhwysiant ar ddull safonol wedi'i ddiweddaru, oedd yn cyd-fynd â lansiad canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru.

5.3 Yn 2017, cafodd y polisi ei adolygu a'i ddiweddaru gan weithgor a phartneriaid.

5.4 Yn 2022/23, adolygwyd y polisi eto gan: ysgolion, y Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc, Ysgolion Iach.

6. Rhannu'r polisi

1. Bydd y polisi hwn wedi'i restru ar wefan yr ysgol.

6.1 Mae fersiwn hawdd ei deall i ddysgwyr o'r polisi ar gael.

6.2 Mae cyflwyniadau'n cael eu gwneud yn ystod gwasanaethau ysgol am y polisi hwn a darpariaeth Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc.

6.3 Bydd copïau llawn o'r polisi ar gael ar gais.

7. Rolau a chyfrifoldebau

Gweithredu polisi sylweddau a rheoli digwyddiadau neu weithdrefnau disgyblu	Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant)
Cyswllt wedi'i enwi i Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc	Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant)
Addysg camddefnyddio sylweddau	Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant)
Unigolyn Diogelu Dynodedig	Ian V Roberts

7.1 Pennaeth

7.1.1 I gydymffurfio â'r polisi hwn, mae'r **pennaeth** a'r **pennaeth cynorthwyol** yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod llywodraethwyr, staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn deall y polisi
- Sicrhau gwyliadwriaeth dros safle a thir yr ysgol drwy'r timau ar ddyletswydd
- Sefydlu systemau i oruchwylio a chydlynu digwyddiadau camddefnyddio sylweddau
- Cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau
- Dilyn unrhyw gyngor gan Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion a thrafod gyda nhw i sicrhau bod eu polisïau i ymdrin ag achosion o gamddefnyddio sylweddau anghyfreithlon yn cael eu dilyn
- Cydlynu atgyfeiriadau at Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc
- Cyfarfod gyda'r aelod o staff cyswllt o Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc yn rheolaidd.

7.2 Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant)

7.2.1 Mae'r Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant) yn gyfrifol am:

- Llunio rhaglen astudio a thrafod gyda chydweithwyr i sicrhau darpariaeth ar draws yr ysgol;
- Mynd i'r afael ag anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus staff sy'n darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau;
- Trafod gydag asiantaethau allanol a chydlynu eu rhan nhw mewn addysg ar gamddefnyddio sylweddau;
- Monitro a gwerthuso'r rhaglen astudio;
- Ymgynghori â dysgwyr ynglŷn â'r hyn maent angen neu yr hoffent ei ddysgu.

7.3 Y Corff Llywodraethu

7.3.1 Trwy fabwysiadu'r polisi hwn, mae corff llywodraethu ysgol (nodwch enw) yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol, fod camddefnyddio sylweddau'n cael ei drafod yn ddigonol a bod addysg yn cael ei darparu gan ddefnyddio dull trawsgwricwlaidd ac yn sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol.

7.4 Staff

7.4.1 Bydd Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant) ein hysgol yn cefnogi'r holl aelodau staff addysgu a staff cysylltiedig i allu gweld a deall y polisi a'u cyfrifoldebau oddi mewn iddo.

7.5 Rhieni/gofalwyr

7.5.1 Mae angen i rieni/gofalwyr fod yn ymwybodol o'r polisi a'i ddeall. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth i rieni/gofalwyr am yr hyn sy'n cael ei ddarparu drwy'r cwricwlwm ac yn rhoi cyfleoedd i rieni/gofalwyr wneud sylwadau am y polisi ac ymarfer trwy gysylltu'n uniongyrchol gyda'r ysgol. Mae'r polisi ar gael i'w weld ar wefan yr ysgol.

7.6 Dysgwyr

7.6.1 Er mwyn cefnogi dysgwyr i ddeall y pedwar diben o fewn Cwricwlwm i Gymru, mae llais y dysgwr yn ganolog i ddatblygu ein cwricwlwm. I sicrhau bod ein cwricwlwm yn bodloni anghenion ein dysgwyr, rydym yn darparu cyfleoedd iddynt wneud sylwadau ar Bolisi Camddefnyddio Sylweddau yr ysgol, cynlluniau gwaith a chynnwys gwersi trwy gynnal gweithgareddau ymgynghori gyda dysgwyr.

7.6.2 Cyfrifoldeb dysgwyr yw cydymffurfio â'r polisi. Rydym yn ymgynghori'n barhaus gyda'n dysgwyr ar ddiwedd gwersi, gweithgareddau a rhaglenni er mwyn sicrhau priodoldeb ein darpariaeth a bod yr adnoddau ac asiantaethau allanol a ddefnyddir yn berthnasol Byddwn yn gweithredu ar unrhyw newidiadau a argymhellir fel bo'n briodol.

7.7 Gweithwyr proffesiynol eraill

7.7.1 Gweithio gydag asiantaethau allanol arbenigol

Er mwyn gwella a chyfoethogi ein haddysg a'n hymyraethau ar gamddefnyddio sylweddau, bydd yr ysgol o dro i dro yn cael ei chefnogi gan asiantaethau allanol.

7.7.2 Bydd yr asiantaethau hyn yn cael eu dewis yn ofalus a bydd yr ysgol yn sicrhau cydymffurfiaeth â phob un o bolisïau perthnasol yr ysgol mewn perthynas ag

ymwelwyr. Bydd yn rhaid i'r ysgol hefyd sicrhau bod yr adnoddau a ddefnyddir gan asiantaethau'n briodol i ddysgwyr o safbwynt datblygiadol. Byddant hefyd yn cael gwybod y bydd aelod o staff yr ysgol yn bresennol drwy gydol y wers/gweithgaredd/cyflwyniad.

8. Lle mae'r polisi'n berthnasol?

NI FYDD camddefnyddio sylweddau yn cael ei ganiatáu yn unrhyw ran o adeiladau na thiroedd yr ysgol nac ar gludiant ysgol na theithiau ysgol. Er enghraifft: ceginau, y dderbynfa, ystafell staff, cae'r ysgol, y maes parcio, gerddi, caeau, tramwyfeydd ac ati.

8.1 Pryd mae'r polisi hwn yn berthnasol?

8.1.1 Ar bob rhan o dir yr ysgol BOB amser.

8.1.2 Gweithgareddau allgyrsiol ar ac oddi ar safle'r ysgol.

8.1.3 Cyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n cael eu mynychu gan weithwyr yr ysgol neu ddysgwyr fel rhan o'u gwaith a/neu rieni/gofalwyr ac ymwelwyr i gyfarfodydd/digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft, diwrnodau chwaraeon, ffeiriau ysgol, nosweithiau rhieni, ac ati.

8.1.4 Ymweliadau addysgol yr ysgol, gan gynnwys gemau chwaraeon oddi cartref, darpariaeth oddi ar y safle, profiad gwaith a theithiau preswyl.

8.1.5 Cludiant ysgol.

8.1.6 Bydd y daith i ac o'r ysgol ac ymddygiad yn yr ardal gyfagos i'r ysgol yn fater i'r pennaeth benderfynu arno.

8.2 I bwy mae'r polisi'n berthnasol?

8.2.1 Mae'r polisi'n berthnasol i **bawb** sy'n defnyddio safle neu gerbydau'r ysgol: holl staff yr ysgol, myfyrwyr ar leoliad, contractwyr, rhieni/gofalwyr, ymwelwyr, asiantaethau allanol, aelodau pwyllgorau fel llywodraethwyr, cymdeithasau rhieni ac athrawon, aelodau'r cyhoedd, gwirfoddolwyr a dysgwyr.

9. Cyfrinachedd a diogelu

9.1 Efallai y bydd angen defnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plant lleol os yw diogelwch neu les dysgwr (neu ddysgwr arall) o dan fygythiad. **Mae dyletswydd ar y gweithwyr proffesiynol hynny sydd ynghlwm i gyfnewid gwybodaeth er mwyn diogelu "plentyn" gan gadw at Weithdrefnau Diogelu Cymru 2019.** Ni all athrawon a gweithwyr proffesiynol gynnig cyfrinachedd diamod i ddysgwyr mewn addysg na digwyddiadau camddefnyddio sylweddau a dylid bob amser sicrhau bod hynny'n eglur o'r cychwyn.

9.2 Os bydd dysgwr yn datgelu gwybodaeth sensitif, nad yw'n hysbys yn gyffredinol a bod y dysgwr yn gofyn i hynny beidio â chael ei rannu, bydd yn cael ei drafod gyda'r pennaeth/unigolyn diogelu dynodedig. Bydd y cais yn cael ei barchu; fodd bynnag, bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri yn erbyn dymuniadau'r dysgwr pan fo:

- Mater diogelu.
- 'Bywyd rhywun mewn perygl neu pan fo dysgwr mewn perygl o achosi niwed difrifol i eraill.'
- Troseddau yn cael eu datgelu.

9.3 Fodd bynnag, byddwn yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i'r dysgwr yn gyntaf, gan egluro pam mae angen i hyn ddigwydd a sicrhau cytundeb y dysgwr o ran y ffordd y mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio unrhyw wybodaeth sensitif.

9.4 O ran addysg ar gamddefnyddio sylweddau:

- Os yw athro/athrawes yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi sy'n awgrymu bod dysgwr mewn perygl o niwed difrifol neu o achosi niwed difrifol i eraill bydd yn rhoi gwybod i'r pennaeth/unigolyn diogelu dynodedig
- Bydd defnyddio rheolau sylfaenol cytunedig mewn dosbarthiadau yn gosod ffiniau clir, yn annog dysgwyr i beidio â rhannu gwybodaeth bersonol mewn lleoliad dosbarth ac yn sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn ddiogel
- Os oes cwestiynau o natur bersonol neu gwestiynau penodol am e.e. gyffuriau anghyfreithlon, bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i siarad â'r aelod o staff i ymddiried ynddynt, rhieni/gofalwyr a/neu asiantaethau cefnogi priodol
- Os yw athro yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi sy'n awgrymu bod gan ddysgwr wybodaeth am weithgareddau sy'n torri'r gyfraith, byddant yn cysylltu â'r pennaeth a'r Unigolyn Diogelu Dynodedig yn y lle cyntaf.

10. Rhannu Gwybodaeth a’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

10.1 Bydd cofnodion am ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau’n cael eu cadw yn unol â pholisi’r ysgol ar y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

11. Cysylltiadau'r cyfryngau

11.1 Ni fydd y staff yn adrodd am ddigwyddiadau a/neu faterion yn ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau i'r wasg a'r cyfryngau lleol. Mae hyn yn torri cyfrinachedd a gallai arwain at gamau disgyblu. Bydd y Pennaeth, wrth ymgynghori â Swyddfa’r Wasg y sir a’r Llywodraethwyr, yn ymdrin yn bersonol â'r holl faterion ynghlwm â’r cyfryngau. Bydd yr holl ymholiadau gan y cyfryngau yn cael eu cyfeirio i Swyddfa'r Wasg y sir.

12. Rhannu gwybodaeth

12.1 Os bydd gennym unrhyw wybodaeth mewn perthynas â sylweddau anghyfreithlon neu ffug neu wybodaeth sy'n ymwneud a defnyddio unrhyw sylweddau neu ddelio sylweddau yn y gymuned, byddwn yn rhoi gwybod am hyn i'r heddlu, safonau masnach neu Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc fel y bo’n briodol.

13. Cydraddoldeb

13.1 Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, ni fyddwn yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth nac ar sail yr iaith Gymraeg. Mae'r holl ddysgwyr, eu rhieni/gofalwyr, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Er mwyn gwneud penderfyniadau sensitif a deallus am anghenion dysgwyr a gallu rhieni/gofalwyr i ymateb i anghenion eu plant, mae'n bwysig i staff yr ysgol fod yn sensitif ynghylch gwahanol batrymau teuluoedd, ffyrdd o fyw a phatrymau magu plant sy'n amrywio ar draws gwahanol grwpiau hil, ethnig a diwylliannol. Ni fyddwn yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth. Byddwn yn gweithio trwy gymuned gyfan ein hysgol i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod ein hysgol yn hygyrch, yn groesawgar ac yn gynhwysol. Gweler Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol ein hysgol am ragor o wybodaeth.

14. Cwynion

14.1 Gweler polisi cwynion yr ysgol sydd i'w weld ar wefan yr ysgol.

15. Monitro ac adolygu

15.1 Byddwn yn adolygu'r polisi hwn bob dwy flynedd, neu fel mae angen. Bydd hyn yn cael ei benderfynu gan yr Uwch Dîm Arwain Uwchradd/Arbennig ar gyfer Cynhwysiant yn Sir Ddinbych. Bydd grŵp priodol yn cael ei alw ynghyd a bydd partneriaid perthnasol yn cael eu cynnwys.

15.2 Bydd y Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant) yn sicrhau bod y canfyddiadau o'n Hadroddiad Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ac o arfarniadau staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn cyfrannu at broses hunan-arfarnu'r ysgol ac at broses adolygu'r polisi.

15.3 Bydd y Pennaeth, Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant) a'r corff llywodraethu yn monitro digwyddiadau (e.e. nifer, natur, canlyniadau digwyddiadau a faint o atgyfeiriadau a wnaed i asiantaethau allanol) ac yn adolygu gweithdrefnau rheoli digwyddiadau.

15.4 Bydd yr Pennaeth Cynorthwyol (Cynhwysiant) a'r aelodau priodol o staff yn adolygu'r addysg ar gamddefnyddio sylweddau'n rheolaidd ac yn defnyddio adroddiadau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion ac adborth gan ddysgwyr i sicrhau bod y rhaglenni'n ymateb i anghenion dysgwyr a bod amgylchedd dysgu cefnogol i bawb.

Rhan 2: Addysg

1. Nodau

2.1 Nod ein haddysg ar gamddefnyddio sylweddau yw galluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a chall am sylweddau sy'n cael eu defnyddio a/neu gamddefnyddio mewn cymdeithas. Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol a bydd y dysgwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teuluol. Bydd ein rhaglen yn un anfeirniadol na fydd yn stereoteipio na chreu stigma. Ni ddylai credoau nac agweddau personol staff neu asiantaethau allanol ddylanwadu ar ein rhaglenni addysg.

2. Darparu

2.1 Mae gwersi'n cael eu darparu gan staff gwybodus, medrus a hyderus.

2.2 Mae dysgwyr yn cael gwybod am sefydliadau/gwasanaethau priodol i gael cyngor a/neu gefnogaeth ganddynt yn rhan o'u gwersi.

3. Adnoddau a chynnwys asiantaethau / mentrau allanol

3.1 Yn achlysurol, byddwn yn gweithio gydag asiantaethau allanol priodol e.e. Swyddog Cyswllt yr Heddlu i Ysgolion, i gyfrannu at agweddau penodol o'r rhaglen addysg ar gamddefnyddio sylweddau. Gofynnir iddynt weithio o fewn ffiniau'r polisi hwn i ychwanegu at ddarpariaeth y cwricwlwm, nid yn ei lle.

3.2 Mae staff yn bresennol yn ystod sesiynau darpariaeth allanol ac yn cymryd rhan wrth gefnogi dysgu, gan gyfrannu at y cylch sicrhau ansawdd ar gyfer y sesiynau.

4. Datblygiad proffesiynol parhaus

4.1 Bydd staff yn cael cyfle i fynd ar gyrsiau priodol ar ymwybyddiaeth o sylweddau.

4.2 Bydd staff yn bresennol mewn sesiynau sy'n cael eu darparu gan asiantaethau allanol.

5. Rhieni/gofalwyr

5.1 Mae’r ysgol yn cynnig cyfleon i godi ymwybyddiaeth rhieni trwy gyfathrebu cyson mewn nosweithiau rhieni a llythyrau.

Rhan 3: rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau

1. Math o ddigwyddiadau

1.1 Gall pethau godi'n annisgwyl felly mae gennym ganllawiau manwl ar waith i gefnogi staff i gymryd camau priodol. Gall digwyddiadau o gamddefnyddio sylweddau ymwneud â dysgwyr, aelodau staff, rhieni/gofalwyr neu oedolion eraill. Enghreifftiau o ddigwyddiadau yw:

- Darganfod cyffuriau neu baraffernalia cyffuriau ar y safle/tir
- Amheuaeth, sibrydion neu honiadau am weithgareddau unigolyn
- Datgelu camddefnydd o sylweddau
- Defnyddio neu arwyddion a symptomau o gamddefnyddio sylweddau
- Gwerthu/delio neu feddu ar sylweddau.

1.2 Bydd yr holl achosion yn cael eu trin o ddifrif a'u hadrodd i'r pennaeth. Mewn penderfyniadau am y camau gweithredu priodol i'w cymryd, lles a diogelwch dysgwyr a'r gymuned ysgol gyfan fydd y flaenoriaeth gyntaf. Os bydd unrhyw un yn ymddangos yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, bydd gweithdrefnau cymorth cyntaf yn cael eu dilyn. Os oes amheuaeth bod dysgwr wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, bydd gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn. Os oes gweithgarwch troseddol yn cael ei ddatgelu neu ei amau, byddwn yn rhoi gwybod i Swyddog Heddlu Ysgolion. Am ganllawiau manylach, trowch at atodiad 1.

2. Cynnwys yr Heddlu

2.1 Ar gyfer POB digwyddiad camddefnyddio sylweddau, diogelwch dysgwyr a chymuned yr ysgol gyfan yw'r flaenoriaeth.

2.2 Yn yr achos hwn, byddwn yn cynnwys Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion ac nid yr Heddlu argyfwng ar gyfer digwyddiadau camddefnyddio sylweddau.

2.3 Os bydd y sefyllfa'n argyfwng, yna caiff 999 ei alw i gael ymateb cynt. Er enghraifft, os bydd unrhyw un yn ymddangos yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau (e.e. gorddos, camddefnyddio toddyddion), byddwn yn dilyn gweithdrefnau cymorth cyntaf ac yn ffonio 999 os bydd angen. NEU, er enghraifft, pan fydd rhiant/gofalwr ar fin gyrru eu plentyn adref mewn cerbyd a bod amheuaeth nad ydynt mewn cyflwr i wneud hynny oherwydd penfeddwdod, neu fod digwyddiad yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon.

2.4 Am fwy o fanylion am gynnwys Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion/yr Heddlu, trowch at:

- Polisi Trechu Troseddau Ysgolion – Protocol ar gyfer Heddlu sy'n Cefnogi Ysgolion gyda Digwyddiadau Trosedd ac Anhrefn. Dogfen Gyfeirio ar gyfer Staff Ysgol (2016); a
- Canllawiau i Ysgolion a Swyddogion Heddlu Cymunedol Ysgolion yn Cydweithio. Rheoli Digwyddiadau Ymddygiad mewn Ysgolion.

2.5 Sylwer y bydd y weithred o gyflenwi, delio neu feddu ar gyffur Dosbarth A yn drosedd. Nid oes modd ymdrin â hynny dan Bolisi Trechu Troseddau Ysgolion.

3. Gweithdrefnau i reoli digwyddiad sy'n ymwneud â dysgwyr (atodiad 1)

Bydd staff sy'n dod yn ymwybodol o anawsterau a/neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dysgwyr a sylweddau yn rhoi gwybod i'r **pennaeth** neu'r **unigolyn arweiniol ar gyfer camddefnyddio sylweddau**. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar fath a maint y risg, gyda rhai sefyllfaoedd sy'n gofyn am weithredu ar unwaith ac eraill angen amser er mwyn asesu gwybodaeth, cael cyngor a chynnwys asiantaethau eraill. Mae diogelwch y dysgwyr yn flaenoriaeth ym mhob achos. Bydd rhieni/ gofalwyr yn cael gwybod oni bai fod pryderon diogelu. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a sut i'w rheoli i'w gweld yn atodiad 1.

3.1 Y weithdrefn i ymdrin â dysgwr ar ôl digwyddiad

3.1.1 Cydnabyddir bod sylweddau'n gallu arwain at newidiadau i ymddygiad. Mae modd ymdrin ag ymddygiad fel hyn gan ddefnyddio ein Polisi Ymddygiad. Ni fydd yr ymddygiad yn cael ei gyfrif yn llai difrifol os yw wedi'i achosi gan y sylwedd.

3.1.2 Nid ein rôl ni yw darparu gofal meddygol i'r rhai o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Os yw dysgwr mewn perygl oherwydd amhariad ar eu cyflwr meddyliol, byddwn yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr a bydd angen iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu plentyn. Os nad oes modd gwneud hynny, gofynnir i gyswllt brys priodol gynorthwyo. Fel arall, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion yn cael eu galw i roi cyngor, os yw hynny'n briodol.

3.1.3 Ni fydd dysgwr yn cael cerdded, beicio na dal y bws adref os oes pryder am amhariad meddyliol o ganlyniad i unrhyw sylwedd. Bydd gofal oedolyn priodol yn cael ei sortio. Os oes angen, bydd grym rhesymol (gweler y polisi Defnyddio Grym Rhesymol ac Ymyriad Corfforol sirol) yn cael ei ddefnyddio.

3.1.4 Ein prif nod yw amddiffyn diogelwch a lles y dysgwr ac atal rhagor o ddigwyddiadau. Mae gennym set o sancsiynau a lefelau o gefnogaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer dysgwyr sy'n rhan o ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr, cydweithwyr yn yr ysgol ac asiantaethau partner fel Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Plant a Phobl Ifanc a'r Heddlu i ddarparu cefnogaeth briodol. Gweler atodiad 1.

4. Y weithdrefn i ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â staff (atodiad 1)

4.1 Ein pryder mwyaf yw lles dysgwyr sydd yn ein gofal. Mae diogelu ein dysgwyr yn fwy o flaenoriaeth na gweithdrefnau disgyblu staff. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys cyffuriau, tybaco ac alcohol) sy'n cynnwys staff yn dod o dan bolisïau Adnoddau Dynol Sir Ddinbych a gallai camau disgyblu gael eu cymryd yn eu herbyn.

5. Y weithdrefn i ymdrin ag oedolion (heb fod yn staff) (atodiad 1)

5.1 Lle'r amheuir bod rhiant/gofalwr neu ymwelydd â'r ysgol dan ddylanwad sylwedd, gofynnir iddynt adael ar unwaith. Bydd eu diogelwch yn cael ei sicrhau, gyda goruchwyliaeth os bydd angen. Mewn achosion lle'r ydym yn amau camddefnyddio sylweddau (meddu, defnyddio, cyflenwi) byddwn yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau

Cymdeithasol ac os amheuir bod sylweddau anghyfreithlon, bydd Swyddog Heddlu Ysgolion neu'r Heddlu'n cael gwybod. Os bydd oedolyn yn ysmygu neu'n defnyddio e-sigarét ar safle'r ysgol, bydd gofyn iddynt roi'r gorau i hynny, neu adael y safle.

5.2 Lle'r amheuir bod rhieni/gofalwyr sy'n cyrraedd yr ysgol i gasglu dysgwyr yn feddw neu dan ddylanwad sylwedd, ni fydd y dysgwr yn cael eu rhyddhau i'w gofal nhw (yn enwedig os ydynt yn gyrru cerbyd). Bydd staff priodol yn ceisio trefnu i gyswllt arall sydd wedi'i enwi ddod i gasglu'r dysgwr. Er hynny, os bydd y rhiant/gofalwr yn troi'n ymosodol, byddwn yn ffonio 999. Mae hyn yn unol â'n Polisi Diogelu.

5.3 Mae camau gweithredu y mae angen eu hatgyfeirio at sefydliadau eraill yn cynnwys:

- Ymchwilio i weithgarwch troseddol, gan gynnwys chwilio pobl neu eiddo personol (yr Heddlu)
- Ar wahân i gymorth cyntaf brys, dylai gweithwyr iechyd priodol ymdrin ag unrhyw argyfwng iechyd neu feddygol
- Mae asesu a darparu cefnogaeth a gwasanaethau i blant a theuluoedd bregus neu gythryblus yn faterion i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc
- Mae rhaglenni cwnsela a thriniaeth cyffuriau'n gofyn am staff sydd wedi'u hyfforddi, sydd fel arfer ar gael drwy Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc, y Gwasanaethau Cymdeithasol, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau arbenigol eraill ar gamddefnyddio sylweddau.

6. Y weithdrefn wrth ddarganfod paraffernalia cyffuriau ar dir yr ysgol (atodiad 1)

6.1 Os ceir hyd i nodwyddau, chwistrellau neu baraffernalia cyffuriau ar safle ein hysgol:

- Bydd yr unigolyn arweiniol yn cael gwybod.
- Bydd y paraffernalia yn cael ei roi mewn blwch pethau miniog (os oes angen), gan ddefnyddio menig a gefel.
- Bydd y Gwasanaethau Amgylcheddol yn cael eu galw i wagio'r blwch (pan mae'n llawn).
- Byddwn yn rhoi gwybod i Swyddog Heddlu Ysgolion.
- Bydd y ffurflen cofnodi digwyddiad yn cael ei llenwi.

- Addysg diogelwch gyda dysgwyr yn ôl yr angen.

7. Y weithdrefn wrth ddarganfod sylweddau ar dir yr ysgol neu fynd â sylweddau oddi ar rywun

7.1 Pan fydd sylwedd amheus yn cael ei ddarganfod neu ei godi o fewn ffiniau ysgol NEU os yw aelod o staff yn dymuno mynd â sylwedd oddi ar rywun, byddwn yn dilyn *Polisi Trechu Troseddau Ysgolion yr Heddlu*:

- Mynd â'r sylwedd a'i roi mewn bag.
- Ni fydd staff yn ceisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd anhysbys dan unrhyw amgylchiadau.
- Os amheuir eu bod yn gyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon, byddwn yn cysylltu â Swyddog Heddlu Ysgolion i gael gwared ag o a chael cyngor am sut i weithredu yn y dyfodol. Os na fydd Swyddog Heddlu Ysgolion ar gael, cysylltir â'r Heddlu lleol cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn egluro'r sefyllfa ac yn gofyn am rif digwyddiad.
- Byddwn yn sicrhau bod aelod arall o staff yn dyst wrth fynd â sylwedd oddi ar unigolyn.
- Alcohol – ei dywallt a thaflu'r cynhwysydd (hysbysu'r rhiant/gofalwr a allai fod eisiau casglu'r eitem).
- Tybaco – ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr a allai fod eisiau casglu'r eitem).
- E-sigaréts – eu dinistrio a'u taflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr a allai fod eisiau casglu'r eitem).
- Cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg, sylweddau anweddol – byddwn yn storio'r sylwedd mewn lleoliad addas yng ngŵydd tyst wrth aros i'r heddlu gyrraedd.
- Gall WEDINOS gael ei ddefnyddio (www.wedinos.org) i ddadansoddi sylwedd anhysbys i ddeall beth ydyw yn union.
- Bydd ffurflen cofnodi digwyddiad yn cael ei llenwi, yn egluro sut y cafwyd gwared â'r sylwedd, a bydd yn cynnwys llofnodion tystion, a llofnod gan yr heddlu os oedd sylwedd anghyfreithlon.

8. Achosion o gamddefnyddio sylweddau sy'n digwydd tu allan i oriau ysgol/yn y gymuned leol

8.1 Nid gan yr ysgol rôl i ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â sylweddau y tu allan i oriau ac adeiladau'r ysgol ac eithrio:

- Ar deithiau ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un disgwyliadau a gweithdrefnau'n berthnasol i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ac ymarferol;
- Drwy basio gwybodaeth i asiantaethau perthnasol pan fydd bygythiad i ddiogelwch neu les dysgwr;
- I gynorthwyo'r heddlu i atal defnyddio'r tir o amgylch yr ysgol i werthu cyffuriau;
- Pan fo oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol) yn amharu ar ddiogelwch dysgwr;
- Os bydd digwyddiadau'n codi yn y gymuned leol, byddwn yn gwneud gwaith ychwanegol gydag asiantaethau allanol priodol i ategu negeseuon allweddol trwy'r cwricwlwm a gwasanaethau'r ysgol.

9. Chwilio

Guidelines_-_Schoo l_Behaviour_Incidene

WPSP_School_Crim e_Beat_Protocol_EN(

- Ni chaiff staff chwilio dysgwyr nac oedolion, eu dillad na'u heiddo personol heb ganiatâd, hyd yn oed wrth amau bod ganddynt sylwedd neu eitem waharddedig.
- Os bydd achlysur lle mae'r ysgol yn amau bod gan ddisgybl sylwedd neu rywbeth sydd wedi'i wahardd yn eu meddiant, bydd staff penodol yn cael eu galw i gynorthwyo ac os oes rheswm i amau, bydd gofyn i ddisgyblion wagio eu bagiau a'u pocedi dan oruchwyliaeth dau aelod o staff.
- Gall staff chwilio eiddo'r ysgol, e.e. desgiau, loceri, er y dylid cael caniatâd ymlaen llaw. Gellir cynnal chwiliadau hyd yn oed os gwrthodir caniatâd.
- Caiff staff yr ysgol ofyn i rywun wagio eu pocedi, bagiau ac ati. Os na lwyddir i ddarbwyllo rhywun sy'n cael eu hamau o gamddefnyddio sylweddau i gydymffurfio â'r cais hwn, gall yr ysgol wneud un neu'r ddau o'r canlynol: yn achos dysgwr,

cysylltu â rhiant/gofalwr a gofyn iddynt ddod i'r ysgol i chwilio'r dysgwr a'u heiddo; NEU ddilyn camau ffurfiol a chysylltu â Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion.

- Ni all staff gadw dysgwr neu oedolyn heb eu caniatâd at ddiben chwiliad.

9.1 Cysylltu â rhieni/gofalwyr

9.1.1 Gwneir ymdrech resymol i gysylltu â rhieni/gofalwyr i roi gwybod iddynt bod eu plentyn yn cael eu hamau o fod â sylwedd neu rywbeth wedi'i wahardd yn eu meddiant a'u bod wedi gwrthod gwagio eu bag neu bocedi. Nid oes gan rieni/gofalwyr hawl i atal chwiliad o'r fath nac i'w ohirio'n ddiangen. Pwerau cyfyngedig sydd gan yr heddlu i gadw unigolyn cyn eu chwilio. Os oes modd cysylltu â rhieni/gofalwyr a'u bod yn gallu dod i safle'r ysgol, byddant yn cael eu hebrwng i'r ystafell lle bydd y sefyllfa'n cael ei thrin a'i thrafod. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â sylweddau oni bai:

- Fod pryderon diogelu
- Y byddai'n ymyrryd ag ymchwiliad ysgol
- Y byddai'n ymyrryd ag ymchwiliad yr heddlu
- Y gallai arwain at fwy o niwed i'r dysgwr am reswm arall.

9.1.2 Byddwn fel arfer yn cysylltu â rhieni/gofalwyr yn uniongyrchol dros y ffôn mewn achos lle mae prawf o ddefnyddio sylweddau. Os oes amheuaeth ond nad yw wedi'i brofi, bydd y rhieni'n dal i gael gwybod.

9.2 Cysylltu â'r heddlu (Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion)

9.2.1 Pan fo gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r heddlu, gofynnir am chwiliad a phwysleisir lle bynnag bo modd mai Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (neu swyddogion eraill fel rhai mewn dillad plaen neu swyddogion amddiffyn teuluoedd) sydd eu hangen. Dim ond fel dewis olaf, neu os oes angen cynnal chwiliad yn gyflym, y bydd swyddogion mewn lifrai yn dod i'r ysgol.

9.2.2 Wrth gyrraedd, bydd swyddogion yn cael eu briffio ynglŷn â natur yr honiad a hyder yn y ffynhonnell wybodaeth. Byddant yn cael eu hebrwng i'r ystafell lle bydd y chwiliad yn digwydd, os yw'r dysgwr eisoes yn cael eu cadw yno.

9.2.3 Pan nad yw'r rhieni/gofalwyr yn bresennol, bydd aelod o staff yr ysgol (staff addysgu neu staff fel arall) yn bresennol trwy gydol y chwiliad **(bydd angen i'r**

ysgol wneud asesiad risg). Er y caniateir rhai cwestiynau yn gysylltiedig â'r chwiliad, ni chaniateir unrhyw gyfweliad ffurfiol oni bai fod y rhieni/gofalwyr yn bresennol. Mae'n annhebygol iawn y cynhelir cyfweliad o'r fath ar dir yr ysgol.

9.2.4 Dylai staff fod yn wyliadwrus o unrhyw ymgais gan y dysgwr i gael gwared ag unrhyw gyffuriau, neu geisio pasio'r cyffuriau i unrhyw ddysgwr arall, naill ai yn y dosbarth neu ar y ffordd i gael chwiliad.

10. Cyfweld ac ymchwiliadau

10.1 Bydd rhagor o ymchwiliadau'n cael eu cynnal ar ôl y digwyddiad; ac os yw'n briodol, bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal i bennu'r ffeithiau, i ba raddau'r oedd yr unigolyn ynghlwm â'r digwyddiad ac a oedd pobl eraill yn rhan ohono. Efallai y bydd angen i ni hefyd drefnu cyfweliadau gyda staff neu ddysgwyr eraill i bennu'r ffeithiau a chael cadarnhad. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gweld eu plentyn gydag aelod o staff yn bresennol drwy'r amser. Gall Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion fod yn rhan o ymchwiliadau partneriaeth neu'r heddlu pan fydd sylweddau anghyfreithlon yn cael eu hamau. Os oes angen cynnwys yr heddlu, bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod a'u gwahodd i fod gyda'u plentyn.

13. Cofnodi digwyddiadau (atodiad 2)

13.1 Bydd cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer POB digwyddiad yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau gan ddefnyddio atodiad 2. Rhaid cadw cofnodion o'r HOLL gyfweliadau.

13.2 Nid oes dyletswydd gyffredinol yn y gyfraith droseddol i ni fel ysgol ddatgelu gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau ac eithrio o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, pan fo trosedd wedi ei chyflawni os yw unigolyn yn caniatáu i eiddo gael ei ddefnyddio ar gyfer ysmygu canabis neu opiwm, neu gynhyrchu, cyflenwi neu weinyddu cyffuriau rheoledig, ac nad oes dim yn cael ei wneud i'w atal.

Atodiad 1:
Siartiau Llif a Sancsiynau Digwyddiadau Camddefnyddio Sylweddau

CRYNODEB O REOLI DIGWYDDIADAU CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU (2024)

Unigolion enwebedig sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau camddefnyddio sylweddau

Rhifau Cyswllt Defnyddiol

Diogelwch, Diogelu a Throsedd

Diogelwch dysgwyr a chymuned yr ysgol gyfan yw'r flaenoriaeth.
Os bydd unrhyw un yn ymddangos yn sâl neu'n anniogel o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau, dilynwch weithdrefnau cymorth cyntaf.
Os oes amheuaeth bod dysgwr wedi dioddef, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, dilynwch weithdrefnau diogelu.
Os oes gweithgarwch troseddol yn cael ei ddatgelu neu ei amau, rhowch wybod i Swyddog Heddlu Ysgolion.

Chwilio

Ni chaiff staff yr ysgol chwilio disgyblion nac oedolion, eu dillad na'u heiddo personol heb ganiatâd, hyd yn oed os ydynt yn amau bod y person yn meddu ar sylwedd neu eitem waharddedig.
Os bydd achlysur lle mae'r ysgol yn amau bod gan ddisgybl sylwedd neu rywbeth sydd wedi'i wahardd yn eu meddiant, bydd staff penodol yn cael eu galw i gynorthwyo ac os oes rheswm i amau, bydd gofyn i ddisgyblion wagio eu bagiau a'u pocedi dan oruchwyliaeth dau aelod o staff.
Gall staff chwilio eiddo'r ysgol, e.e. desgiau, loceri, er y dylid cael caniatâd ymlaen llaw. Gellir cynnal chwiliadau hyd yn oed os gwrthodir caniatâd.
Caiff staff yr ysgol ofyn i rywun wagio eu pocedi, bagiau ac ati. Os na lwyddir i ddarbwyllo rhywun sy'n cael eu hamau o gamddefnyddio sylweddau i gydymffurfio â'r cais hwn, gall yr ysgol wneud un neu'r ddau o'r canlynol: yn achos dysgwr, cysylltu â rhiant/gofalwr a gofyn iddynt ddod i'r ysgol i chwilio'r disgybl a'u heiddo; NEU ddilyn camau ffurfiol a chysylltu â Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion.
Ni all staff gadw dysgwr neu oedolyn heb eu caniatâd at ddiben chwiliad.

Gwaredu sylwedd sydd wedi'i chymryd oddi ar rywun

Sicrhewch fod aelod arall o staff yn dyst wrth fynd â sylwedd oddi ar unigolyn.
Rhoi'r sylwedd mewn bag.
Ni ddylai staff geisio dadansoddi na blasu unrhyw sylwedd anhysbys dan unrhyw amgylchiadau.
Alcohol – gellir ei dywallt a thaflu'r cynhwysydd (hysbysu'r rhiant/gofalwr a allai fod eisiau casglu'r eitem).
Tybaco – gellir ei ddinistrio a'i daflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr a allai fod eisiau casglu'r eitem).
E-sigaréts – gellir eu dinistrio a'u taflu (hysbysu'r rhiant/gofalwr a allai fod eisiau casglu'r eitem).
Os oes amheuaeth o gyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg, sylweddau anweddol – bydd y sylwedd yn cael ei storio mewn lleoliad addas (sêff yn ddelfrydol) yng ngŵydd tyst. Bydd Swyddog Heddlu Ysgolion yn cael ei alw i gael gwared â'r sylwedd ac i roi cyngor am sut i weithredu yn y dyfodol. Os na fydd Swyddog Heddlu Ysgolion ar gael, cysylltir â'r Heddlu lleol. Bydd y sefyllfa'n cael ei hegluro a rhif digwyddiad yn cael ei gofnodi.
Gall sylwedd gael ei anfon at wedinos.org i'w ddadansoddi.
Llenwch y ffurflen digwyddiad, gan egluro sut y cafwyd gwared â'r sylwedd, a chynnwys llofnodion gan dystion.
Ategwch negeseuon addysgol priodol gyda'r dysgwyr os oes angen.

Cyfryngau

NI FYDD digwyddiadau neu faterion yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau'n cael eu rhannu â'r wasg a'r cyfryngau lleol.
Bydd y Pennaeth, wrth ymgynghori â Swyddfa'r Wasg y sir a'r Llywodraethwyr, yn ymdrin â'r holl faterion ynghlwm â'r cyfryngau.

Yr Heddlu

Galwch Swyddog Heddlu Ysgolion ac nid yr heddlu argyfwng ar gyfer POB digwyddiad camddefnyddio sylweddau.
